

Pwy wyt ti?

Wyt ti'n ddireidus fel Nel? Neu wyt ti'n gorryn bach blin fel Barti Blin? Ateb y cwestiynau hyn a nodar sgôr i weld pa gymeriad Na, Nel! wyt ti. (Cofia ateb yn onest... am y tro cyntaf erioed, efallai.)

1. Wyt ti'n golchi dy ddwylo ar ôl mynd i'r tŷ bach?

- Ydw, wrth gwrs. (1)
- Weithiau (os dwi'n cofio). (2)
- Dim ond oedolion sy'n golchi eu dwylo bob tro. (3)

2. Wyt ti'n golchi dy ddannedd cyn mynd i'r gwely?

- Dwi'n golchi fy nannedd am ddwy funud. (Mae Mam yn ddeintydd.) (1)
- Dwi'n golchi fy nannedd am un funud. (2)
- Dwi'n gwlychu'r brws ac esgus 'mod i wedi eu brwsio nhw. (3)

3. Wyt ti'n brwsio dy wallt?

- Ydw. Dwi'n hoffi edrych fel pin mewn papur. (1)
- Dwi'n brwsio'r top a gadael yr ochrau a'r gwaelod. (2)
- Aww! Mae brwsio gwallt yn brifo! (Hyd yn oed pan dydy e ddim.) (3)

4. Wyt ti'n dweud plis a diolch?

- Dwi'n greadur cwrtais iawn. (1)
- Weithiau... ond weithiau dwi'n Alys Anghofus. (2)
- Dim ond pan dwi eisieu rhywbeth! (3)

5. Wyt ti'n gallu canu?

- Dwi'n canu fel eos swynol ar yr X Factor. (1)
- Dwi'n canu fel One Direction. (Dwi angen bach o help weithiau... fel One Direction.) (2)
- Dwi'n canu fel brân yn crawcian! Ond dydy hynny ddim yn fy stopio i. (3)

6. Wyt ti'n garedig i dy ffrindiau?

- Bob amser. (1)
- Y rhan fwyaf o'r amser. (2)
- Ydw... ond weithiau dwi eisieu fy ffordd fy hun! (3)

7. Wyt ti'n pigo dy drwyn?

- Ych a fi! Dim ond Dad sy'n pigo ei drwyn! (1)
- Ydw... a fflicio'r snobs at fy ngelyn pennaf! (2)
- Ydw... a'i fwyta. Mae llysnafedd trwyn yn fwy blasus na brocoli! (3)

8. Beth yw dy hoff fwyd di?

- Salad iach. (1)
- Dwi'n hoffi ffrwythau... a losin. (2)
- Siocled i frecwast, cinio a swper! (A llysnafedd trwyn i de!) (3)

Sgôr

Rhwng 19-24 Llongyfarchiadau ar sgôr uchel iawn! Rwyd ti'n gwrandio dim ac yn byw yn dy fyd bach dy hun... sy'n llawn pethau melys i'w bwyta a phob math o uch a puchs! Ti yw'r person gorau yn y byd... ti yw Nel! (Neu, Barti Blin os wyt ti'n fachgen.)

Rhwng... 13-18 Sgôr da iawn. Rwyd ti'n gwrandio ar oedolion weithiau - ac yn gwneud beth mae plant eraill yn ei wneud... Ond mae hwyl a direidi yn fwy pwysig na phethau diflas... fel golchi... a bwyta tomatos. Rwyd ti fel Nel neu Barti ar ddiwrnod da - pan mae Siôn Corn yn gwrandio.

Rhwng... 0-12 Sgôr da. Rwyd ti fel Mair Mwyn neu Gwern Gwylbod Popeth. Mae dy rieni yn falch iawn ohonot ti... Mae dy athrawon yn falch iawn ohonot ti... Dal ati i blesio pawb - mae oedolion yn hoffi hynny (ac efallai y cei di fwy o siocled yn y pen draw).

